**Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg 2017-18**

Cyflwyniad

Dyma gyhoeddi ail adroddiad Gweinidogion Cymru ar ein cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg, ers i'r Safonau ddod i rym ar 30 Mawrth 2016. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud cynnydd cadarnhaol wrth gydymffurfio gyda'r gofynion a sicrhau y gall pobl ymwneud â sefydliad yn eu dewis iaith. Rhaid nodi mai un darn o'r jig-so cynllunio ieithyddol strategol a fydd yn cynorthwyo'r Llywodraeth i gyrraedd y nod o 1 miliwn o siaradwyr erbyn 2050 yw cydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru gyda Safonau'r Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod o baratoi at weithredu'r safonau gwelwyd gweithdrefn newydd ar waith o fewn y Llywodraeth, a gwahanwyd swyddogaethau polisi'r Gymraeg a chydymffurfio gyda'r safonau er eglurder a phriodoldeb. Lleolir tîm polisi'r Gymraeg o fewn y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, tra bo tîm cydymffurfio'r safonau wedi'i leoli o fewn Grŵp Swyddfa'r Prif Weinidog. Tîm bach iawn o staff sydd yn gweithio'n ganolog ar gydymffurfiaeth er eu bod wedi'u cefnogi gan rwydwaith o gydlynwyr ar draws y sefydliad.

Mae delio gyda pholisi gorfodaeth Comisiynydd y Gymraeg yn dal i gyfri am oriau lawer o waith y tîm cydymffurfio, oherwydd bod cwynion dilys a gyflwynir i'r Comisiynydd yn esgor ar ymchwiliadau statudol. Mae delio gyda'r ymchwiliadau yn parhau i fod yn feichus i bob parti.

1. Cydymffurfio gyda'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

1.1 Cyffredinol

Daw'r adroddiad yma ar ddiwedd ail flwyddyn gweithredu Safonau'r Gymraeg a gwelsom fod arferion gwaith newydd yn gwreiddio yng ngwaith dydd i ddydd swyddogion y Llywodraeth.

Parhawyd i weithredu drwy rwydwaith cydlynwyr y Gymraeg i dderbyn sicrwydd fod y safonau ar waith o fewn Grwpiau' sefydliad . Defnyddir y rhwydwaith yn ogystal i rannu arfer dda a thrafod materion yn codi sydd yn ymwneud â'r safonau.

Canolbwyntiwyd yn ystod y flwyddyn ar ddatblygu capasiti i gynnig gwasanaeth cwsmer o safon gan staff rheng flaen y sefydliad, drwy hyfforddiant a gweithdai amrywiol. Yn ogystal aethom ati i hyrwyddo a marchnata gwasanaethau Cymraeg yn nerbynfeydd y Llywodraeth ar draws yr ystâd i annog y cyhoedd a'n rhanddeiliaid i ddefnyddio'u Cymraeg wrth ddelio â ni. Gwelwyd adnoddau Iaith Gwaith yn cael eu harddangos ymhob derbynfa, ac yn benodol, hysbysebwyd y gwasanaeth Cymraeg sydd ar gael yn y brif dderbynfa ym Mharc Cathays gyda sticeri mawr Iaith Gwaith a'r gair "Croeso" (yn Gymraeg yn unig) wedi'i osod yn flaenllaw ar hyd y ddesg flaen.

1.2 Cwynion

Derbyniwyd 27 cwyn yn ymwneud â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn ystod 2017-18. Daeth 14 o'r cwynion yma yn uniongyrchol gan aelodau'r cyhoedd O'r cwynion ynghylch y Safonau Cyflenwi Gwasanaeth a dderbyniwyd drwy law Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg (13 i gyd), cynhaliwyd ymchwiliad statudol mewn 7 achos, gyda 4 o'r ymchwiliadau wedi'u cwblhau erbyn 31 Mawrth 2018.

2. Cydymffurfio gyda'r Safonau Llunio Polisi

2.1 Cyffredinol

Defnyddir fframwaith asesu effaith ar gyfer ystyried pa effeithiau mae penderfyniadau polisi Gweinidogion Cymru yn eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Diben y fframwaith yw cynnig cyngor cynhwysfawr i staff ar roi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi. Mae asesiad effaith y Gymraeg yn un o'r asesiadau gorfodol y mae swyddogion yn ymgymryd â hwy wrth ddatblygu, addasu neu adolygu bolisïau. Defnyddir proses 5 cam, sef cynllunio; asesu; cofnodi; ymgynghori; a chyhoeddi o fewn y fframwaith. Y nod yw datblygu polisïau o'r ansawdd gorau posibl sydd yn gwneud gwahaniaeth yn eu tro i ddinasyddion Cymru.

Mae templedi safonol ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru yn sicrhau ein bod yn ceisio barn ymatebwyr ar effeithiau ein penderfyniadau polisi ar y Gymraeg, ac mae templedi safonol manylebau contractau yn sicrhau fod y Safonau yn ystyriaeth pan yn contractio gwasanaethau gan drydydd partïon. Datblygwyd canllawiau clir i staff ar gyfer cydymffurfio â gofynion y safonau wrth ymgynghori ar bolisïau, wrth ddyrannu contractau, wrth ddyrannu arian grant ac wrth gomisiynu ymchwil.

2.2 Cwynion

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ynghylch y Safonau Llunio Polisi yn ystod y cyfnod adrodd.

3. Cydymffurfio gyda'r Safonau Gweithredu

3.1 Cyffredinol

Yn ystod 2017-18 gwelwyd y Gymraeg yn datblygu yn ei defnydd yn fewnol. Gwelwyd cynnydd yn y gwasanaethau oedd ar gael i staff drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwelwyd yn ogystal gynnydd bach yn nifer y swyddogion oedd yn cofrestri sgiliau yn y Gymraeg i'w gymharu ag ystadegau'r blynyddoedd blaenorol. Gwelwyd rhagor o gyfathrebu corfforaethol gyda staff yn ddwyieithog. Mae hyn oll yn golygu fod y Gymraeg i'w gweld a'i chlywed yn fwy helaeth nag y bu ar hyd ystâd y sefydliad.

3.2 Cwynion

Derbyniwyd un cwyn o dan y Safonau Gweithredu yn ystod y cyfnod adrodd.

3.3 Sgiliau Swyddogion

**Mawrth 2018**

| | Darllen | Siarad | Deall | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| 0 | 2090 | 2501 | 2271 | 2844 |
| 1 | 1289 | 1154 | 1050 | 947 |
| 2 | 433 | 258 | 522 | 282 |
| 3 | 305 | 179 | 189 | 302 |
| 4 | 308 | 274 | 283 | 310 |
| 5 | 680 | 742 | 792 | 412 |
| Dim gwybodaeth | 192 | 189 | 190 | 200 |
| | 5395 | 5395 | 5395 | 5395 |

| | Darllen | Siarad | Deall | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| 0 | 39.5% | 47.2% | 42.9% | 53.7% |
| 1 | 24.3% | 21.8% | 19.8% | 17.9% |
| 2 | 8.2% | 4.9% | 9.9% | 5.3% |
| 3 | 5.8% | 3.4% | 3.6% | 5.7% |
| 4 | 5.8% | 5.2% | 5.3% | 5.9% |
| 5 | 12.8% | 14.0% | 15.0% | 7.8% |
| Dim gwybodaeth | 3.6% | 3.6% | 3.6% | 3.8% |

**Mawrth 2017**

| | Darllen | Siarad | Deall | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| 0 | 2210 | 2597 | 2381 | 2964 |
| 1 | 1283 | 1175 | 1060 | 951 |
| 2 | 450 | 265 | 533 | 295 |
| 3 | 308 | 189 | 192 | 299 |
| 4 | 303 | 269 | 278 | 317 |
| 5 | 684 | 742 | 797 | 405 |
| Dim gwybodaeth | 157 | 158 | 154 | 164 |
| | 5395 | 5395 | 5395 | 5395 |

| | Darllen | Siarad | Deall | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| 0 | 41.0% | 48.1% | 44.1% | 54.9% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 23.8% | 21.8% | 19.6% | 17.6% |
| 2 | 8.3% | 4.9% | 9.9% | 5.5% |
| 3 | 5.7% | 3.5% | 3.6% | 5.5% |
| 4 | 5.6% | 5.0% | 5.2% | 5.9% |
| 5 | 12.7% | 13.8% | 14.8% | 7.5% |
| Dim gwybodaeth | 2.9% | 2.9% | 2.9% | 3.0% |

Mae'r data yn cynnwys staff parhaol a dros dro.

3.4 Nifer a chanran y staff fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn y Gymraeg 2017-18

Cyrsiau dysgu Cymraeg yn y gweithle

| **Lefel** | **Wedi cofrestri** | **Sefyll yr arholiad** |
|---|---|---|
| | | |
| Mynediad | 84 | 28 |
| Sylfaenol | 55 | 22 |
| Canolradd | 51 | 13 |
| Uwch 1+2 | 52 | 8 |
| Cyfanswm | 242 | 71 |

Yn ogystal â chyrsiau ffurfiol wythnosol, mynychodd 52 aelod o staff sesiwn blasu'r Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd. Mae 91 aelod o staff sydd yn siaradwyr Cymraeg rhugl wedi cynnig eu henwau ar gyfer y rhaglen mentora dysgwyr, i gynnig cyfleoedd iddynt ymarfer eu Cymraeg y tu hwnt i'r stafell ddosbarth.

Cyrsiau Rheoli Perfformiad

Mynychodd 47 o staff gyrsiau yn ymwneud â system rheoli perfformiad Llywodraeth Cymru eleni trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hwn yn 18% o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs.

Cyrsiau Gwasanaeth Cwsmer Dwyieithog

Mynychodd 84 o staff gyrsiau yn ymwneud â delio gyda'r cyhoedd yn ddwyieithog eleni, gan gynnwys staff derbynfeydd, staff y ganolfan gyd wasanaethau a staff diogelwch. Cynhaliwyd y cyrsiau hyn yn ddwyieithog.

3.5 Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd wedi'u categoreiddio fel swyddi sy'n gofyn am

- i) Sgiliau Cymraeg hanfodol
- ii) Sgiliau Cymraeg i'w dysgu pan benodir

iii) Sgiliau Cymraeg yn ddymunol
iv) Nad yw sgiliau Cymraeg yn hanfodol

| **Categori** | **Hysbysebu'n fewnol** | **Hysbysebu'n allanol** |
|---|---|---|
| Hanfodol | 34 | 13 |
| I'w dysgu pan benodir | 2 | 2 |
| Dymunol | 80 | 39 |
| Ddim yn hanfodol | 480 | 50 |
| Cyfanswm | 597 | 104 |